Hwb Llawfeddygol
Ysbyty Llandochau
Surgical Hub
@Llandough

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Gwybodaeth am ryddhau cleifion ar ôl anesthetig cyffredinol

Cawsoch anesthetig cyffredinol ar gyfer eich triniaeth heddiw. Mae hyn yn golygu eich bod wedi cael eich rhoi i gysgu i ganiatáu i'r driniaeth gael ei chynnal yn gyfforddus.

## Cwestiynau diogelwch cyffredin:

Efallai y byddwch yn teimlo'n gysglyd, felly am y 24-48 awr nesaf **NI DDYLECH** wneud y canlynol:

- Gyrru cerbyd, reidio beic neu weithredu peiriannau trwm.
- Yfed alcohol neu gymryd cyffuriau hamdden.
- Gwneud penderfyniadau pwysig neu lofnodi dogfennau pwysig/cyfreithiol.
- Bod yn gyfrifol am blant neu ddibynyddion eraill.
- Coginio, defnyddio tegell neu weithredu peiriannau.

**NI DDYLECH gael eich gadael ar eich pen eich hun** am y diwrnod a'r noson gyntaf ar ôl y llawdriniaeth.

## Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu 111 os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych chi'n profi unrhyw un o'r canlynol gartref:

- Tymheredd uchel.
- Pryderon ynghylch clwyfau e.e. gwaedu, chwyddo, cochni, crawn/arllwysiad.
- Poen difrifol/sy'n gwaethygu.

## Ffoniwch 999 neu ewch i'ch Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys agosaf os byddwch chi'n profi unrhyw un o'r canlynol:

- Diffyg anadl.
- Anadlu araf neu gyflym/bas.
- Poen yn y frest.
- Gwefusau/ewinedd glas.
- Brest dynn.
- Awydd gormodol i gysgu.

### Rhifau cyswllt allweddol

Hwb Llawfeddygol (8am-5pm Llun-Gwener):
Hwb Llawfeddygol (Llawr Cyntaf) - **02921 826510**
Hwb Llawfeddygol (Llawr Gwaelod) - **02921 826348**
**Eich Meddyg Teulu**
**111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau neu'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys

Fersiwn 1.1 Mai 2026